## Rhaglen Hyfforddiant

Dylai cynghorau cymuned a'u staff geisio sicrhau eu bod mor effeithiol ac effeithlon â phosibl wrth gyflawni swyddogaethau. Dylai cynghorau edrych yn rheolaidd am gyfleoedd i wella eu systemau gweinyddu a llywodraethu fel y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau a gwasanaethu eu cymunedau'n well. Ar ôl nodi bylchau mewn datblygiad, y cam nesaf yw datblygu cynllun i lenwi'r bylchau hyn.

Mae adran 67 o Ddeddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned baratoi a chyhoeddi cynllun ynglŷn â'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer eu haelodau a'u staff. Rhaid paratoi a chyhoeddi'r cynllun hyfforddi cyntaf erbyn 5 Tachwedd 2022, chwe mis ar ôl i'r ddyletswydd ddod i rym. Ystyrir bod hwn yn gyfnod priodol o amser i gynghorau asesu anghenion, cytuno ar eu cyllideb hyfforddi a mabwysiadu cynllun.

Dylai'r cynllun hyfforddiant ystyried a oes gan y cyngor, ar y cyd, y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arno i gyflawni ei gynlluniau yn y ffordd fwyaf effeithiol, a mynd i'r afael â hynny.

**Archwiliad Sgiliau**

Y cam cyntaf wrth ddarparu cynllun hyfforddiant effeithiol yw cynnal archwiliad sgiliau.

Mae’r Archwiliad Sgiliau’n edrych ar gymwyseddau ar draws y Cyngor Cymuned, nid ar Gynghorwyr unigol.

| Sgil | Gan y Clerc | Gan Gynghorwyr | Cefnogaeth (yn ôl yr angen) |
|---|---|---|---|
| Rheolaeth ariannol a chyfrifon Llyw. Leol | cyflawni | | Drwy archwiliad mewnol SLCC/OVW |
| Archwiliad a rheoli risg Llywodraethiant Llyw. Leol, e.e. diogelu data, rhyddid/gwybodaeth, hygyrchedd | cyflawni | | Comisiynydd Gwyb |
| Llywodraeth Leol AD Cyflogaeth, treth a phensiynau, iechyd a diogelwch, deddfwriaeth a materion ymarferol | Gwybodaeth Sylfaenol gan y Clerc | | OVW/SLCC/ACAS |
| Hyfforddiant | cyflawni | | OWV/SLCC/OWV/SLCC/Hyfforddwr allanol arall yn ôl yr angen |
| Band eang a chyfathrebu | cyflawni | | Hyfforddiant allanol yn ôl yr angen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Cynllunio, strategol e.e. cynlluniau lle | Sylfaenol gan y Clerc | | OVW/SLCC/Cymorth Cynllunio Cymru |
| Ceisiadau cynllunio a materion cyffredinol gan gynnwys gwybodaeth leol gadarn | Sylfaenol gan y Clerc | | OVW/SLCC/ Cymorth Cynllunio Cymru |
| Gwein. a rheolaeth, agenda, cofnodion etc | cyflawni | | OVW/SLCC |

**Cynghorwyr**

**Archwiliad Sgiliau**

Bydd yn ofynnol i Gynghorwyr nodi unrhyw hyfforddiant Un Llais Cymru, SLCC neu fath arall wedi'i ddarparu gan gyrff allanol y talwyd amdano neu a ysgogwyd gan y Cyngor Cymuned o fis Mai 2021 hyd heddiw, fel rhan o archwiliad sgiliau cychwynnol.

Gofynnir i Gynghorwyr roi gwybod am unrhyw sgiliau personol, megis cyfieithu, ysgrifennu copi, dylunio dogfennau, sgiliau crefftwr a all fod o les i'r Cyngor. Mae rhagor o wybodaeth am gyrsiau ar gael yma

http://www.onevoicewales.org.uk/OVWWeb/Default-7451.aspx

Gellir cael hyfforddiant hefyd oddi wrth SLCC (gweler isod) neu hyfforddwr neu sefydliad allanol priodol.

Mae'r Cyngor yn addo talu am fodiwlau hyfforddiant Un Llais Cymru yn unol â'r rhestr isod lle mae hynny'n briodol i fusnes y Cyngor, fel mater o bolisi.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai costau hyfforddiant gan gyflenwyr allanol eraill gael eu cymeradwyo gan y Cyngor cyn tynnu unrhyw gostau. | | | | |
| **Gofynion sylfaenol yn unol â'r canllaw i Ddeddf 2021** | | | | |
| Sefydlu Cynghorwyr Newydd | | | | |
| Cod am Ymarfer | | | | |
| Cyllid Llywodraeth Leol | | | | |
| **Cyrsiau sydd ar gael** | | | | |
| Y Cyngor | | | | |
| Y Cynghorydd | | | | |
| Y Cyngor fel Cyflogwr | | | | |
| Deall y Gyfraith | | | | |
| Cyfarfodydd y Cyngor | | | | |
| Iechyd a Diogelwch | | | | |
| Cyflwyniad i Ymgysylltu â'r Gymuned | | | | |
| Sgiliau Cadeirio | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio Argyfwng Cymunedol | | | | |
| Cynllunio Cymunedol/Lle | | | | |
| Ymgysylltu â'r Gymuned Rhan II | | | | |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | | | | |
| Rheoli Gwybodaeth | | | | |
| Defnyddio TG a'r cyfryngau cymdeithasol | | | | |
| Cyflwyno Ceisiadau Effeithiol am Grant | | | | |
| Rheoli eich staff | | | | |
| Datganoli Gwasanaethau | | | | |
| Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2016 / Cynaliadwyedd | | | | |
| Cyllid Llywodraeth Leol (Uwch) | | | | |
| Cyfryngu a Chymodi | | | | |

Yn 2022, mae cyrsiau gydag Un Llais Cymru ar gyfer cyrff sy'n aelodau yn costio £35 y modiwl (gall bwrsariaethau fod yn gymwys).

Cynigir modiwlau hyfforddiant pellach gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) https://www.slcc.co.uk/events/

Mae cyrsiau SLCC yn amrywio yn ôl y dull darparu, a dylid cadarnhau'r costau drwy edrych ar y wefan.

**Y Clerc**

Dylid annog y Clerc i ymuno ag SLCC (Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol), a'r Cyngor yn talu'r tâl aelodaeth.

Mae gan y Clerc presennol Dystysgrif Addysg Uwch – Llywodraethiant Cymunedol.

Mae'n ddymunol i unrhyw Glerc sy'n dod i'r swydd yn y dyfodol feddu ar o leiaf gymhwyster CiLCA (y cymhwyster lefel mynediad yn 2022, i'w adolygu fel sy'n briodol) neu fod yn fodlon gweithio tuag at y cymhwyster cyn pen 2 flynedd ar ôl dod i'r swydd.

Disgwylir i'r Clerc ddilyn cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Caiff modiwlau hyfforddiant pellach eu cynnig gan y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) https://www.slcc.co.uk/events/ neu gan gyrff hyfforddi allanol. Dylai'r costau gael eu cymeradwyo gan y Cyngor.

Mae cyrsiau SLCC yn amrywio yn ôl y dull darparu, a dylid cadarnhau'r costau drwy edrych ar y wefan https://www.slcc.co.uk/events/.

Yn ogystal â modiwlau hyfforddiant penodol, mae Un Llais Cymru ac SLCC yn cynnig cyfres o gynadleddau a seminarau a all fod o les i aelodau etholedig a staff.

**Ariannu**

Ar ôl yr archwiliad sgiliau cychwynnol, bydd y Cyngor yn darparu cyllideb hyfforddiant ddigonol i dalu am anghenion uniongyrchol Cynghorwyr a staff gan ddibynnu ar faint ei gyllideb yn y flwyddyn ariannol 22-23.

Bydd y Cyngor yn ymrwymo i dalu costau hyfforddiant ar gyfer datblygiad Cynghorwyr a staff gan ddibynnu ar faint y gyllideb.

## Adolygiad

Caiff y polisi hwn ei adolygu fel y cytunir gan y Cyngor o leiaf ar ddechrau'r tymor yn dilyn etholiad.